

Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Jane Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

SeneddPPIA@senedd.cymru

19 Gorffennaf 2021

Annwyl Ms Bryant

Ystyried y Gymraeg yng ngwaith y Pwyllgor

Rwyf yn ysgrifennu atoch ar ddechrau cyfnod y chweched Senedd i'ch annog i sicrhau y bydd y Pwyllgor yn rhoi ystyriaeth lawn i'r Gymraeg ym mhob agwedd o'i waith.

Yn Strategaeth Cymraeg 2050 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y weledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r ganran sy'n siarad y Gymraeg yn ddyddiol i 20%. Mae'r strategaeth yn cynnwys cerrig milltir i fesur llwyddiant ei chyflawniad, gyda'r garreg filltir gyntaf yn 2021 a'r nesaf yn 2026. Yng nghyfnod y Chweched Senedd bydd raid bwrw ati o ddifri i ddwyn y Llywodraeth i gyfrif am y graddau y mae'r Strategaeth yn cael ei chyflawni a'r cerrig milltir yn cael eu cyrraedd. Yn hynny o beth mae'n hollbwysig prif ffrydio'r Gymraeg i ddeddfwriaeth a pholisi ehangach ac mae'n bryder gennyf nad oes digon o graffu ar effaith deddfwriaeth a pholisi ehangach ar y Gymraeg yn gyffredinol. Yn wir, nododd Eluned Morgan, y Gweinidog blaenorol dros Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, mewn sesiwn graffu:

... I would suggest that actually, rather than just holding me to account when it comes to the budget, [...] that actually you ask the other Ministers, who've got huge amounts of money, what they're doing within their budgets in relation to the Welsh language.”
(Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, Cymraeg a Chyfathrebu, 25 Chwefror 2021)

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

Pwysleisiaf na ddylid ystyried y Gymraeg yn fater diwylliannol yn unig gan ei bod yn iaith fyw ym mhob un o gymunedau Cymru ac yn brif iaith yn nifer ohonynt. Mae'r cymunedau hynny yn wynebu nifer o heriau cymdeithasol ac economaidd sydd yn eu tro yn herio hyfywedd y Gymraeg yn y cymunedau hynny.

Cyhoeddodd y Comisiynydd ddogfen maniffesto ar gyfer etholiad 2021¹ yn datgan bod angen ystyried amrediad eang o ffactorau sy'n effeithio ar y Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i faes addysg. Yng nghyd-destun cylch gwaith y pwyllgor, gwna'r ddogfen nifer o argymhellion ynglŷn â gofal plant ac addysg, o'r blynyddoedd cynnar i'r cyfnod ôl-16:

- Cefnogi lleoliadau sy'n cynnig darpariaeth yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg ar hyn o bryd i gynnig darpariaeth yn Gymraeg; a chyflwyno cymhellion i leoliadau gofal plant sy'n cynnig darpariaeth Gymraeg neu elfen arwyddocaol ddwyieithog. (Argymhelliad 5)
- I hwyluso argymhelliad 5, datblygu strategaeth benodol ac uchelgeisiol ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu gofal plant ac addysg. (Argymhelliad 6)
- Datblygu strategaeth i sicrhau bod cyrsiau hyfforddiant addysg gychwynnol athrawon yn datblygu sgiliau Cymraeg holl ddarpar athrawon. Yn ogystal â gwella a chynnal sgiliau'r rhai sydd eisoes yn siarad Cymraeg, mae angen i gyrsiau hyfforddi athrawon wella sgiliau a chynyddu hyder y rhai sydd â rhywfaint o Gymraeg, a darparu sgiliau sylfaenol i'r rhai sydd â braidd dim gallu ar gychwyn y broses hyfforddi. (Argymhelliad 7)
- Creu rhaglen gyllido benodol ar gyfer gwireddu amcanion Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. (Argymhelliad 8)
- Adolygu a diwygio rheoliadau a chanllawiau teithio er mwyn hwyluso mynediad at ofal plant, addysg statudol, ac addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau tegwch i ddysgwyr a theuluoedd sy'n dymuno derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru. (Argymhelliad 9)
- Rhoi arweiniad a chyllid ar gyfer symud ysgolion ar hyd y continwrm ieithyddol, gan sicrhau cynnydd yng nghyfran y cwricwlwm a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg. (Argymhelliad 10)
- Ymrwymiad polisi i gefnogi ac ariannu 'Cynllun gweithredu addysg bellach a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg' y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn llawn. (Argymhelliad 11)
- Gan adeiladu ar gynlluniau presennol Cymraeg Gwaith, datblygu rhaglen gynhwysfawr hir dymor i wella sgiliau ieithyddol y gweithlu addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith fel y bo canran sylweddol mewn meysydd blaenoriaeth yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai'r rhaglen gynnwys dulliau addysgu dwyieithog ac fe

¹ [Maniffesto \(positif.wales\)](https://positif.wales)

ddylai alluogi rhyddhau staff am gyfnodau estynedig i feistrolï'r Gymraeg yn ogystal â recriwtio rhagor o staff sy'n siarad Cymraeg i'r sector. (Argymhelliad 12)

Yr her i'r Llywodraeth newydd fydd gweithredu'n radical er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i gyrraedd targedau 2050 a chredaf fod gan y pwyllgor rôl hollbwysig yn yr ymdrech i gyflawni hyn.

Gobeithio y byddwch yn cadw'r sylwadau hyn mewn cof wrth i chi ystyried gwaith y pwyllgor i'r dyfodol. Dymunaf bob llwyddiant i chi yn y gwaith hwnnw ac edrychwn ymlaen at gyfrannu ato.

Yr eiddoch yn gywir,



Gwenith Price

Dirprwy Gomisinydd y Gymraeg